# Ordinhad 8

# Y Cyngor: Gofalu am y Sêl Gyffredin a'r Defnydd ohoni

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 1.2 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

## Ordinhad 8
## Y Cyngor: Gofalu am y Sêl Gyffredin a'r Defnydd ohoni

1. Y Cyngor yn unig fydd yn gofalu am Sêl Gyffredin Prifysgol Bangor a'r defnydd ohoni gyda phŵer llawn i dorri neu wneud y cyfryw Sêl o'r newydd.

2. Pan fydd y Cyngor, neu unrhyw berson neu gorff o bobl a awdurdodwyd gan y Cyngor, yn gyffredinol neu mewn perthynas â thrafodiad penodol, wedi penderfynu llofnodi dogfen drwy weithred, rhaid gosod Sêl Gyffredin y Brifysgol ar y ddogfen yn unol â'r cyfryw orchymyn hwn, sef Gorchymyn 8.

3. Ysgrifennydd y Cyngor fydd yn atebol i'r Cyngor am ddiogelwch y Sêl Gyffredin, ac am reoleiddio ei defnydd.

4. Rhaid selio dogfennau o ganlyniad i'r canlynol:

   i. Penderfyniad gan y Cyngor;
   ii. Penderfyniad gan unrhyw berson neu gorff o bobl sy'n gweithredu gydag awdurdod dirprwyedig gan y Cyngor, naill ai'n gyffredinol neu mewn perthynas â thrafodiad penodol; neu
   iii. Yn unol â Chynllun Dirprwyo a Phwerau Gwneud Penderfyniadau y Cyngor.

5. Awdurdodir gosod y Sêl fel arfer gan Ysgrifennydd y Brifysgol ac un o'r canlynol. Yn absenoldeb Ysgrifennydd y Brifysgol, awdurdodir gosod y Sêl gan ddau o'r canlynol:

   i. Llywydd/Is-ganghellor
   ii. Prif Swyddog Cyllid
   iii. Prif Swyddog Gweithredu

6. Pan fydd dogfen wedi'i chymeradwyo i'w gweithredu fel gweithred yn unol â pharagraff 2 uchod, rhaid gosod y Sêl Gyffredin ar y ddogfen o dan y ffurf geiriau hyn:

   *GWEITHREDWYD fel Gweithred drwy osod Sêl Gyffredin PRIFYSGOL BANGOR ym mhresenoldeb:-*
   ……………………………………………….
   *Aelod o'r Bwrdd Gweithredol*
   ……………………………………………….
   *Aelod o'r Bwrdd Gweithredol/Ysgrifennydd y Brifysgol*

7. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor (neu enwebai) yn cadw Cofrestr Selio, gan gofnodi pob defnydd, y dyddiad, manylion y ddogfen sy'n cael ei selio ac enwau unrhyw drydydd parti perthnasol. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn sicrhau bod y Gofrestr Selio ar gael i aelodau'r Cyngor ei harchwilio ar gais.

8. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn cyflwyno rhestr o'r dogfennau hynny a seliwyd yn unol â'r Gorchymyn hwn i gyfarfod dilynol y Cyngor.